CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
8 Mai 2024
AM 7.00 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, H Owens, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C Thomas, R G Parry, G Parry, S Jones, Cyng D Fowlie (Cynghorydd Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod, hefyd aelod newydd Cyng Howell Owens.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 10.04.24 fel cofnodion cywir. Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng H N Evans yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes Chwarae CCTV** – Mae'r Clerc a'r Cadeirydd wedi cael cyfarfod gyda'r Brifathrawes a swyddog o'r Cyngor Sir i drafod cysylltu camera CCTV i'w system. Byddant yn cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir a llywodraethwyr yr ysgol ac yn cysylltu â ni.
4.2	**Bin Lon Ty Hen** - Mae Humphreys Waste wedi cytuno i wagio'r bin am gost o £10 bob tro. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Cynghorydd J Earnshaw i ofyn a yw'r cais am wastraff cyffredinol neu gi
4.3	**Gwasanaeth Tan** – Ymgynghoriad - mae aelodau yn ymateb i'r ymgynghoriad
4.4	**Diwrnod Agored** Maes Chwarae - Cynhelir y Diwrnod Agored ar 19.07.24 fel y cytunwyd gyda'r brifathrawes. Bydd lluniaeth ar gael a parti i'r plant
4.5	**Cysegru tir ychwanegol y Fynwent** - mae'r Clerc yn aros i glywed gan yr Eglwys yng Nghymru
4.6	**Draenio y maes Chwarae** - Mae'r Clerc wedi derbyn un pris (Peredur Astley £6,600) ac yn aros am bris arall.
4.7	**Neuadd yr Eglwys** - Cytunwyd i drafod y mater yn y cyfarfod nesaf
4.8	**Anglesey Golf Club** – mewn llaw
	Llofnod…….Cadeirydd 12.06.24

4.9	**20myh Lon ty Hen** - Nid yw'r Cyngor Sir yn gallu symud yr arwyddion 20mya ymhellach allan o'r pentref gan nad oes lampiau stryd
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r aelodau ar y Fferm Solar. Dywedodd hefyd y bydd cyfarfod nesaf Cynghrair Crigyll ar 21 Mai.
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
6.1	Arwydd 20 myh Lon ty Hen – gweler 4.9
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Humphreys Waste – gweler 4.2
7.2	Cyngor Gwynedd - Derbyniodd yr aelodau y dyfynbris o £230 i archwilio'r cyfrifon
7.3	Peredur Astley – gweler4.6
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Palmant Bryngwran - Nid yw preswylwyr yn hapus gyda chyflwr y palmant sy'n arwain o'r feddygfa. Mae'r Cynghorydd H N Evans wedi cyfeirio'r mater i'r Cyngor Sir
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
9.1	Aelodaeth Unllais Cymru £169.00
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Parcio Lon ty Hen
	Llofnod…….Cadeirydd 12.06.24